

Llais Gwirfoddol Cylchlythyr

Rhifyn 3 2019
www.flvc.org.uk



Cystadleuwyr ac enillwyr Cystadleuaeth Cymunedau Taclusaf, gyda'r Cyngorydd Marion Bateman wnaeth gyflwyno'r gwobrau.

Ein Gweledigaeth:

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint.

Ein Cenhadaeth:

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu grwpiau gwirfoddol a chymunedol I gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

*Cefnogi, Hyrwyddo a
Datblygu Gwaith
Gwirfoddol a
Chymunedol*



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**



- 3 Newyddion FLVC
- 6 Ymgysylltu a dylanwadu
- 7 Hyfforddiant & Dyddiadau Fforwm
- 8 Ariannau
- 10 Gwirfoddoli
- 12 Llywodraethu Da

Cysylltwch gyda ni, cadwch mewn cysylltiad gyda ni

Corlan, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug,
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
CH7 1XP

Ebost - info@flvc.org.uk
Ffôn - 01352 744 000

Tanysgrifio i'n e-fwletin

Cliciwch ar y botwm "tanysgrifio" ar ochr de
canol tudalen gartref ein gwefan.

Twitter

@FLVCFlintshire
@FLVCVolCentre

Facebook

@flvcpage
@Flintshire.Volunteer.Centre

Croeso i drydydd a rhifyn olaf y Llais Gwirfoddol ar gyfer 2019

Yn y rhifyn hwn, bu inni ganolbwyntio ar sut rydym yn helpu grwpiau cymunedol a gwirfoddol, elusennau a'r rheiny sy'n dymuno dysgu mwy am wirfoddoli yn Sir y Fflint. Os nad ydych chi'n gyfarwydd gyda FLVC, y rhifyn hwn ydy ein cyflwyniad ac ein croeso cynnes ichi.

Mae cymysgedd arferol o newyddion a gwybodaeth rydym yn gobeithio a fydd o help ichi fedru sefydlu neu barhau i gynnal mudiad neu brosiect gwirfoddol, cymunedol neu elusennol a dod o hyd i'r cyfle gwirfoddoli mwyaf addas ichi.

Hoffwn ddiolch yn fawr i Uwch Siryf Clwyd, Stephanie Catherall, am gyfrannu darn difyr dros ben am ei blwyddyn sirfol hyd yn hyn.

Ar ran tîm FLVC, hoffwn ddymuno Nadolig Llawen iawn ichi i gyd a'r dymuniadau gorau ar gyfer 2020.



Prif Swyddog
01352 744028

ann.woods@flvc.org.uk

Yma yn FLVC, rydym yn gwasanaethu'r rheiny sy'n buddsoddi eu hamser er budd eraill, ac fel tîm staff, rydym yn ystyried hyn yn frain.

Rydym yn ymwybodol bod y rheiny sydd ynghlwm â gwneud newidiadau cadarnhaol yn dueddol o fod yn hunan-ddechreuwr gyda greddf i ddod o hyd i'r hynny sy'n anghyfarwydd gyda chynnal elusen, prosiect neu fenter cymunedol, wirfoddol neu elusennol yn annibynnol. Os allwch chi uniaethu gyda hyn, rydym yn eich annog i ddatblygu arfer o gysylltu i ofyn am gyngor a chefnogaeth pan mae ei angen arnoch chi. Un o fuddion manteisio ar ein gwybodaeth ac arbenigedd ydy y bydd yn caniatáu mwy o amser ichi ganolbwyntio ar eich menter. Mae modd i unrhyw un yn Sir y Fflint, sy'n dymuno derbyn cefnogaeth a chyngor am y canlynol, fanteisio ar ein gwasanaeth:

- Popeth yn ymwneud â gwirfoddoli
- Sefydlu a chynnal mudiad, grŵp, clwb neu gymdeithas gymunedol neu wirfoddol a llwyddo i ennill cyllid i'w gynnal
- Cydweithio gydag a dylanwadu ar agendâu sy'n bwysig ichi, ac sy'n effeithio ar y bobl rydych chi'n cydweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi.
- Cynnal menter gymunedol neu wirfoddol yn effeithio ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan oresgyn unrhyw rwystrau byddwch yn eu hwynebu.

Helpu i deilwra FLVC fel ei fod yn berthnasol i'r gwaith rydych chi'n ei gyflawni

Trefnu ymweliad gwranddo a dysgu

Gan ddeall anghenion mentrau cymunedol a gwirfoddol yn well, gallwn fwrw ati i ofalu ein bod yn diwallu'r anghenion.

Gofynnwn i'r rheiny sy'n cyflawni gwaith gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint i'n gwahodd ni i ddysgu mwy am eu gwaith a gwranddo ar eu hanghenion. Rydym yn westai gwyh ac yn ymwybodol nad oes digon o oriau mewn diwrnod yn aml iawn felly rydym yn addo na wnawn ni amharu.

Os ydych chi'n fodlon inni ymweld â chi ar amser a dyddiad sy'n gyfleus ichi, anfonwch

Ebost - info@flvc.org.uk, neu

Ffôn - 01352 744000

Rhoi'r gair ar led am ein gwaith ledled Sir y Fflint a thu hwnt

Mae tîm FLVC yn estyn llaw ac yn hyrwyddo ein gwasanaeth mewn digwyddiadau ledled y sir, a gweddill Gogledd Cymru, drwy gydol y flwyddyn. Ymysg y rhestr o ddigwyddiadau bu inni eu mynychu ers rhifyn diwethaf y Llais Gwirfoddol mae'r Eisteddfod a Ffair Yrfaedd ym Mhrifysgol Glyndŵr. Os ydych chi'n cynnal digwyddiad ar gyfer cynulleidfya a fydd yn elwa o'n help, gofynnwn yn garedig ichi ein gwahodd ni draw hefyd.



Swyddog Cyllid, Heather Hicks yn yr Eisteddfod

22ain Cyfarfod Blynyddol

Roedd yn bleser gennym ni groesawu'r holl bobl wnaeth fynychu ein Cyfarfod Blynyddol yn Theatr Clwyd ym mis Medi.

Ymysg uchafbwyntiau cyfarfod eleni, wedi'i agor gan y Cyngorydd Marion Bateman, Cadeirydd Cyngor Sir y Fflint, oedd cyflwyniad i enillydd Gwobr Tom Jones eleni am Wirfoddoli leuenctid.

Yn dyst i werth ein pobl ifanc ni tuag at y sector gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint, roedd cryn gystadleuaeth ar gyfer y Wobr Tom Jones. Fe dderbyniodd James Reynolds yr anrhydedd wedi i arweinydd Grŵp Sgowntiaid Saltney Ferry ei enwebu am ei ymrwymiad ac ymroddiad tuag at bobl ifanc yn y grŵp a gweddill y sgowntiaid yng Nghymru. Fel rhan o'r enwebiad, fe ddywedodd Arweinydd y Sgowntiaid, Robert Benyon, "Yn ystod yr holl 32 o flynyddoedd rydw i wedi arwain y Sgowntiaid, ni fu yna neb mwy ymroddgar yn ein cynorthwyo yn y grŵp."



Dde i'r Chwith, Robert Benyon, enwebydd Enillydd Gwobr Tom Jones eleni, Chloe Ann Brooks, Enillydd Gwobr Tom Jones 2018, enillydd 2019 James Reynolds, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr Paul Hinchliffe

Bu i'r panel beirniadu hefyd ganmol yr enwebedigion Lacey Jones ac Alex Nemes yn fawr. Cafodd Lacey, gwirfoddolwr ar ran y Gwasanaeth Mentoriaid Gwirfoddol yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant Cyngor Sir y Fflint am ei heffeithioldeb yn cefnogi dau o bobl ifanc. Cafodd Alex ei enwebu am ei gyfraniad tuag at Active Cambria am gynnis sesiynau gweithgareddau corfforol i'w gyfoedion a phlant yr ardal a recriwtio a mentora gwirfoddolwyr o'i grŵp cyfoedion.

Gwobrau Cymunedau Taclusaf 2019

Mae cystadleuwyr yn rhoi o'u hamser ac yn rhannu eu sgiliau i greu a chynnal a chadw cymunedau eu budd y trigolion. Mae'r ethos hyn yn debyg iawn i ethos wedi'i fabwysiadu gan y mudiadau gwirfoddol a chymunedol rydym yn eu cefnogi yn FLVC, felly bu inni fachu ar y cyfle i gydlyn'u'r gystadleuaeth am y tro cyntaf eleni.

Bu i Gadeirydd Cyngor Sir y Fflint, y Cyngorydd Marion Bateman, agor y seremoni drwy egluro mai nod y gystadleuaeth ydy "...annog cymunedau, pentrefi a threfi i gydweithio fel grwpiau i wella'u hamgylchedd ac annog pobl i deimlo balchder yn eu hardal.

Mae cystadleuwyr yn cyfrannu at ofalu bod Sir y Fflint yn le arbennig i fyw, gweithio a gwirfoddoli ynddo."

Bu i banel beirniadu 2019, sef Ymddiriedolwr FLVC Pip Perry (MBE), Heather Price o Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, a John Whittaker, Uwch Swyddog Parciau a Chefn Gwlad Cyngor Sir Wrecsam fwynhau teithio i bob cwr o'r sir ym mis Gorffennaf gan ddwyn i ystyriaeth cyfanswm o 30 o gystadleuwyr. Roedd eu hymdrech i ddod o hyd i neuaddau pentref ac adeiladau cymunedol taclus a prysur, mewnbwn gwirfoddolwyr, gwelliannau neu waith ar y gweill yn gynhyrchol. Yn dyst i safon uchel y cystadleuwyr, roedd yn dasg anodd penderfynu ar yr enillydd ymhob un o'r chwe chategori gan gyflwyno gwobrau teilyngdod yn nhri o'r categorïau. Cafodd y gwobrau eu cyflwyno yn ein Cyfarfod Blynnyddol, a bu i'r cyflwyniad i gyd-fynd gyda'r gwobrwyo yn arddangos y cystadleuwyr ofalu bod y digwyddiad yn ddeniadol a bywiog dros ben. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at y Gwanwyn a lansiad cystadleuaeth y flwyddyn nesaf. Rydym yn gobeithio y byddwn yn derbyn cais gan eich cymuned chi.

Mae ond modd cynnal y cystadleuaeth gyda diolch i gefnogaeth noddwyr lleol



Llais Gwirfoddol 04
Rhif 3 2019



Enillwyr Gwobrau Cymunedau Taclusaf 2019

Pentref/Cymuned taclusaf gyda phoblogaeth o lai na 1000

Llanasa

Cymuned neu Dref Taclusaf, gyda phoblogaeth sydd dros 1000

Enillwyr ar y cyd:

Higher Kinnerton a Chaerwys

Canol y Dref Taclusaf, gyda phoblogaeth sydd dros 5000

Mynydd Isa

Ystad Dinasyddion Hyn Taclusaf Enillwyr ar y cyd

Belvedere Close, Queensferry a Hafod-y-Bryn, Brynffordd

Gardd Gymunedol / Man Bywyd Gwylt Taclusaf

Gardd Neuadd Bentref Pantymwyn

Ysgolion

Brynffordd CP



Chwith i'r Dde Beirniad y Gystadleuaeth Pip Perry (MBE), Mrs Linda Greenough o Ysgol Brynffordd, Steve Thomas (Airbus), y Cyng. Marion Bateman, Mrs Elaine Shickell o Ysgol Brynffordd, beirniad y gystadleuaeth Heather Price, disgyblion Ysgol Brynffordd Morganne a Tesni Kerfoot-Davies.

Edrych ymlaen at Wobrau Cy-munedol Uwch Siryf Clwyd 2020

Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod cyfraniadau rhagorol unigolion, mudiadau gwirfoddol neu gymunedol a grwpiau elusennol tuag at eu cymunedau priodol.

Mae FLVC yn falch o chwarae rhan yn y gwobrau drwy dderbyn enwebiadau ar gyfer unigolion, prosiectau a grwpiau yn Sir y Fflint a rhannu'r rhain gyda'r Uwch Siryf i'w hystyried. Bydd y panel beirniadu yn dewis dau unigolyn ac un mudiad neu grŵp o Sir y Fflint i dderbyn gwobr.

Rydym yn edrych ymlaen at y seremoni wobrwyo yn Theatr Clwyd ar Fawrth yn 20fed 2020.

Mae'n bleser gennym ni gyflwyno darn wedi'i ysgrifennu gan Uwch Siryf Clwyd, Stephanie Catherall, yn y rhifyn hwn o'r Llais Gwirfoddol. Mae'r darn yn cynnig cipolwg difyr o'i blwyddyn yn y swydd hyd yn hyn a'i rhagdybiaethau o ran gweithgareddau'r trydydd sector yn y sir.

"Ym mis Mawrth 2019, bu imi wisgo fy Ngwisg Uwch Siryf am y tro cyntaf. Bu imi ymuno gyda fy Nghaplan y Parchedig Andrea Jones yn ei heglwys fendigedig Sant Deiniol ym Mhenarlâg, ynghyd â Chôr yr Eglwys, Côr Dynion Sir y Fflint a 150 o westeion ac urddasolion ar gyfer fy ngwasanaeth datganiad.

Bu fy mlwyddyn sirfol yn gymysgiad dymunol o ymweliadau difyr a digwyddiadau arbennig mewn lleoliadau arbennig. Roedd hefyd yn gyfle imi gyfarfod gyda nifer o bobl ragorol sy'n gwneud effaith cadarnhaol dros ben yn ein sir. Mae'n ffrainc cyflawni dyletswydd Uwch Siryf ac mae'n brofiad bythgofiadwy.

Hyd yn hyn, yn ystod fy mlwyddyn yn mynychu digwyddiadau ac ati yn ein sir arbennig, Clwyd, fe gefais fy syfrdanu gan y lefelau amddifadedd a hyglwyfedd ar ein stepen drws. Fodd bynnag fe gefais fy nghalonogi gan y gofal, tosturi ac ymroddiad bu imi ei weld ledled y sir.

Credaf o ystyried ein byd sydd yn llawn gwrthddywediadau a phwysau allanol, gall Clwyd fod yn falch o'i hun a'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n gweithio yn ein gwasanaethau cyhoeddus statudol a sector

elusennol ac nid er elw sy'n cyflawni gwaith anhygoel. Gwelais gadarnhad o hyn droeon mewn manau bu imi ymweld â nhw a seremonïau bu imi eu mynychu.

Mae'r gair dyletswydd wedi dod i'r amlwg sawl gwaith eleni, a bu imi deimlo balchder o weld gwaith y sector elusennol a gwirfoddol. Mae nifer o bobl yn mynd ati i gynnig eu hamser a gwybodaeth yn hael gan eu bod yn ei ystyried fel dyletswydd iddyn nhw a bu imi weld pobl yn mynd tu hwnt a thu draw i'w disgwyliadau. Fe fydd fy Noson Gwobrau Uwch Siryf ym mis Mawrth 2020 yn uchafbwynt y flwyddyn imi, wrth inni fynd ati i gydnabod yr arwyr tawel hyn."

Gallwch ddysgu mwy am flwyddyn yr Uwch Siryf hyd yn hyn a'r swydd ei hun, ar www.highsheriffclwyd1920.co.uk



Beth ydym ni wedi'i gyflawni er eich lles chi yn ddiweddar?

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn dod â holl Gyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) yng Nghymru ynghyd. Ymysg tasgau Cefnogi Trydydd Sector Cymru mae casglu gwybodaeth er mwyn dangos y gwahaniaethau yn sgil gwaith y Cyngorau Gwirfoddol Sirol neu mewn geiriau eraill, eu heffaith.

Mae eich adborth yn werthfawr tu hwnt inni fedru cyflawni ein cenhadaeth i gefnogi, hyrwyddo a datblygu gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn ein sir. Os ydych chi wedi cysylltu gyda ni ond heb gwblhau holiadur am eich profiad, ewch i <https://www.surveymonkey.co.uk/r/TSSWimpact2019> os gwelwch yn dda. Fel arall, os ydych chi wedi derbyn e-bost gan un o'n tîm, cliciwch y ddolen ger yr adran llofnod. Rydym yn ddiolchgar dros ben ichi am dreulio ychydig funudau yn rhannu ein llwyddiannau a sut gallwn fynd ati i ofalu ein bod yn fwy effeithlon.

"Rydym yn ddiolchgar am eu harweiniad a'u cefnogaeth ardderchog... ar faterion cyfreithiol a chynllunio a chyllid."

BETH MAE YMATEBWYR YN EI DDWEUD AM FLVC

"MAE CAEL Y GEFNOGAETH YN HANFODOL... I... FUDIADAU SY'N CHWILIO AM CYLLID... A HEFYD CAEL EIN CYFEIRIO AT CYNGOR ARBENNIGOL AR DDEDDFWRIAETH."

"Maen nhw'n hollgynhwysol, yn gwneud popeth y gallan nhw i gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr lleol...."

"...mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael cefnogaeth a chynghor doeth FLVC yn arbennig wrth ddelio gyda'r Comisiwn Elusennau."

Gofynnwn yn garedig ichi gwblhau'r holiadur os gwelwch yn dda a rhoi gwybod inni ydych chi'n cytuno gyda'r adborth diweddar am ein gwasanaeth

Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhyddhau Adroddiad Effaith 2018-19

Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) ydy'r mudiad

sy'n dod â phob un o'r 19 cyngor gwirfoddol sirol yng Nghymru ynghyd. Gallwch fwrw golwg ar eu hadroddiad am effaith y sector yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yma <https://bit.ly/2DmBaEv> Caiff Astudiaethau Achos eu defnyddio yn yr adroddiad i ddangos bu i Gyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) chwarae rhan annatod yn cefnogi mudiadau a phrosiectau trydydd sector hen a newydd. Caiff Hwb Iechyd Cynnar Sir y Fflint ei grybwyll, ac mae dyfyniad gan William, sy'n gwirfoddoli ar ran Byddin yr Iachawdwriaeth yn yr Wyddgrug lle mae'n sôn sut y bu i wirfoddoli wella'i obeithion yn y farchnad swyddi, roi hwb i'w hyder a'i helpu i wneud nifer o ffrindiau newydd. Caiff perfformiad y sector ei fesur yn erbyn dangosyddion allweddol yn ymwneud â'r pedwar piler y mae partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn canolbwyntio arnyn nhw:

- Gwirfoddoli • Llywodraethu da •
- Cydweithio strategol a dylanwadu •
- Adnoddau cynaliadwy •

Dyma gipolwg o berfformiad cyfunol yr holl Gyngorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru, sy'n rhan o'r adroddiad:



Dweud eich dweud mewn ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol

Cadwch lygaid am eich cyfle chi i ddylanwadu ar yr agenda rydych yn angerddol yn ei chylch gyda'r dolenni cyflym hyn i'r holl ymgynghoriadau agored. Llywodraeth y DU

<https://bit.ly/2q3FCoU>

Llywodraeth Cymru

<https://bit.ly/2Dmtous>

Cyngor Sir y Fflint

<https://consult.flintshire.gov.uk/portal/>

Cyfleoedd Hyfforddiant

DYDDIAD	CWRS / PWNC	HYD	COST
Ionawr yr 20fed 2020	Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Lefel 2	UN DIWRNOD	£60 i'r rheiny sydd ddim yn aelodau. £45 i aelodau, i gadw lle, ffoniwch 01352 744000 neu anfonwch e-bost info@flvc.org.uk
Ionawr yr 20fed 2020	Sesiynau un-i-un – dod yn gyfarwydd gyda gwefan newydd Gwirfoddoli Cymru	UN AWR	Am ddim. Cadw lle ar-lein ar https://bit.ly/2OOgPNQ
Ionawr yr 21ain 2020	Sesiynau un-i-un – dod yn gyfarwydd gyda gwefan newydd Gwirfoddoli Cymru	UN AWR	Am ddim. Cadw lle ar-lein ar https://bit.ly/2pXRUIq
Chwefror y 6 fed 2020	Digwyddiad Rhannu Gwybodaeth am Drosoglwyddo Asedau Cymunedol	PRYNHAWN	Am ddim. Byddwn yn rhannu manylion cadw lle yn ein e-fwletin
Chwefror y 19eg 2020	Iechyd a Diogelwch Lefel 2	UN DIWRNOD	£60 i'r rheiny sydd ddim yn aelodau £45 i aelodau i gadw lle, ffoniwch 01352 744000 neu anfonwch e-bost info@flvc.org.uk
Mawrth 31 ain 2020	Y Trydydd Sector – Ffyrdd gwahanol o gynhyrchu incwm	UN DIWRNOD	Am ddim. Byddwn yn rhannu manylion cadw lle yn ein e-fwletin

Gofalwch eich bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd hyfforddiant diweddaraf drwy wneud y canlynol:

Cofrestru ar gyfer e-fwletin FLVC <https://bit.ly/35EWhhB>

Gwrio adran "Parth Dysgu" gwefan FLVC <https://flvc.org.uk/learningzone/>

Dyddiadau Cyfarfodydd Rhwydwaith FLVC 2020

	Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli	Rhwydwaith Lles Gogledd Ddwyrain Cymru	Rhwydwaith Ymddiriedolwyr
ION		Ionawr y 9fed 2020 9:30yb – 12:30yp	
CHWEF	Chwefror y 10fed 2020 9:30yb – 12yp		
MAW		Mawrth y 12fed 2020 9:30yb – 12:30yp	Mawrth yr 31ain 2020 9:30yb– 12yp
EBRILL			
MAI	Mai'r 18fed 2020 9:30yb – 12yp	Mai'r 14eg 2020 9:30yb – 12:30yp	
	I gadw lle cysylltwch â info@flvc.org.uk ar 01352 744000	I gadw lle cysylltwch â info@flvc.org.uk ar 01352 744000	I gadw lle cysylltwch â info@flvc.org.uk ar 01352 744000

Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli

Mae hwn yn rhwydwaith cefnogol sy'n gyfle i fudiadau trydydd sector dysgu gan ei gilydd a rhannu syniadau.

Rhwydwaith Lles Gogledd Ddwyrain Cymru

Rhwydwaith o staff a gwirfoddolwyr o fudiadau a grwpiau trydydd sector sy'n gweithio yn Sir y Fflint a Wrecsam gan ymdrin ag iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

Rhwydwaith Ymddiriedolwyr

Cynnal menter wirfoddol neu gymunedol yn effeithiol. Mae'n gyfle i wrando ar arbenigwyr yn trafod ystod o bynciau perthnasol a thrafod materion cyfundrefnol cyfredol gyda'ch cyfoedion. Does dim rhaid ichi fod yn ymddiriedolwr i fod yn rhan o'r Rhwydwaith Ymddiriedolwyr. Mae'n agored i unrhyw un sy'n ymwneud â menter gymunedol gymuned fynychu, fel aelodau bwrdd a phwyllgorau, ysgrifenyddiaeth a thrysoryddion.

Cymhorthfa Ariannau - cyfle ichti arbed amser, ymdrech ac arian

Drwy gydol y flwyddyn, bu inni gynnal cymorthfeydd i gefnogi'r rheiny sy'n ceisio dod o hyd i gyllid. Rydym yn cynnal y cymorthfeydd ar y cyd ag arianwyr, ac maen nhw'n gyfle ichti fwrw amcan ar debygolrwydd eich cais yn llwyddo ac i dderbyn cyngor ar sut i gyflwyno'ch cais yn y ffordd orau.

Dengys ymchwil diweddar, er bod y rhan fwyaf o geisiadau yn aflwyddiannus, mae elusennau yn buddsoddi adnoddau sylweddol ar gyfer cyflwyno ceisiadau felly'n amlwg mae budd mawr o fynychu cymhorthfa. Mae'n foddhaol gwybod ein bod wedi helpu'r rheiny sy'n mynychu cymorthfeydd i dderbyn grant neu eu helpu i dreulio'u hamser ac adnoddau gwerthfawr mewn ffordd fwy cynhyrchiol. Tanysgrifiwch i e-fwletin FLVC i wybod pryd fydd y gymhorthfa nesaf. Mae'r galw am apwyntiadau yn uchel felly rydym yn argymhell ichti gadw lle'n fuan.

Dengys ymchwil gan Brevio, cydweithfa sy'n gweithredu i greu system creu grantiau rhatach a llai mentrus a Phrifysgol Bath:

- Mae pob elusen neu grŵp cymunedol yn ceisio am 22 grant ar gyfartaledd pob blwyddyn
- Yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd graddfa methu gyda cheisiadau grant yn 63%
- Mae'n cymryd 18 awr ar gyfartaledd i gwblhau cais am gyllid nodweddiadol
- Mae elusennau cofrestredig yn gwario £1.1 biliwn y flwyddyn yn llunio ceisiadau



Bu i Sarah Bowles o Gronfa Gymunedol y Loteri Fawr yng Nghymru a Sabina Dunkling o Gronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru groesawu ymgeiswyr dichonol i gymhorthfa ym mis Medi.

Prosiectau Sir y Fflint yn ennill £987,000 o ffrydiau ariannau gyda chymorth gan FLVC

Bu i ein Swyddog Allestyn Cyllid Heather Hicks helpu elusennau a mentrau cymunedol a gwirfoddol yn y sir ddenu swm sylweddol o £987,000 mewn cyllid ers mis Ebrill.

Ynghyd â threfnu a chydlynu cymorthfeydd cyllid lle bydd mynychwyr yn derbyn manylion rhoddwyr grantiau sydd fwyaf tebygol o gefnogi syniad, yn ogystal â chynnig awgrymiadau ar sut i gyflwyno cais, mae Heather yn ymateb i nifer o ymholiadau ad-hoc gan fudiadau sydd angen arian am amrywiaeth o wahanol resymau.

Mae llwyddiant ymgeiswyr yn Sir Fflint yn dyst i wybodaeth eang Heather am ffrydiau cyllid ond hefyd am yr hynny mae rhoddwyr grant yn dymuno i weld mewn prosiectau maen nhw'n eu cefnogi.

Rydym yn gobeithio, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, y byddwn wedi cynorthwyo gyda cheisiadau llwyddiannus gwerth dros £1 miliwn. Os oes gennych chi fwch cyllid i'w lenwi, cofiwch gysylltu gyda Heather!

Fe ddaw eto haul ar fryn wrth i Glwb Gwener Sychdyn gau

Wrth i drefnwyr Clwb dydd Gwener Sychdyn gau ei ddrysau'n gyndyn am byth, bu i Heather ei ddiddymu'n ffurfiol drwy helpu dosbarthu'r cyllid oedd yn weddill i'r grwpiau canlynol sy'n cyfarfod yn y pentref:

Rainbows Iaf Sychdyn
Cylch chwarae Sychdyn
Cyfeillion Ysgol Sychdyn
Clwb Bowllo Sychdyn

Dywedodd Heather, "Mae'n ddymunol gweld effaith gadarnhaol yn sgil cau'r Clwb dydd Gwener. Roedd y rheiny oedd yn gyfrifol am gynnal y clwb yn awyddus i'r pentref elwa o'r cyllid oedd yn weddill ac roeddwn i'n fwy na pharod i ofalu bod hyn yn digwydd."

Adnoddau gan Inspiring Impact yn helpu i ymgeiswyr ennill y blaen gydag arianwyr

Mae gwefan Inspiring Impact, wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn dod ag adnoddau ynghyd er mwyn i fudiadau a phrosiectau fedru deall yn well a chynyddu eu heffaith. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau sut i fynd ati ac offer hunan-asesu ynghyd ag adroddiadau ymchwil, offer diagnostig a fframweithiau deilliannau.

Dyweddodd Heather Hicks gwelodd "Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Elusennol gynydd mewn ceisiadau grant ond gan ystyried y diffyg cynnydd mewn cyllideb, bu'n rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau anodd. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu bod prosiectau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd ar gyfer cyllid cyfyngedig. Bydd ceisiadau ar ran prosiectau a fydd yn golygu'r mwyaf o fuddion ac â'r effaith fwyaf yn llwyddo. Felly, gall unrhyw beth sy'n helpu grwpiau i ddangos eu heffaith ofalu eu bod yn llwyddo i ennill y grantiau yn hytrach na methu."

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ydy partner ar gyfer y cynllun Inspiring Impact. I wybod mwy, neu i ymuno gyda Rhwydwaith cyfoedion Inspiring Impact, cysylltwch gyda Mair Rigby: mrigby@wcva.org.uk.

Ariannau Rhwydd gyda Easyfundraising.org.uk

Mae dros 3,700 o fasnachwyr ar-lein yn fodlon diolch i'w cwsmeriaid am siopa gyda nhw ar y we drwy gyfrannu at achos o'u dewis nhw. Gwefan Easyfundraising ydy'r llwyfan sy'n gofalu fod hyn yn bosib.

Gall unrhyw achos da, o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i elusennau, clybiau chwaraeon i grwpiau cefnogi, gofrestru gydag Easyfundraising i dderbyn cyfraniadau gan fasnachwyr. Caiff cyfanswm o £15 mewn cyfraniadau eu cyflwyno pob tri mis drwy drosglwyddiad banc neu siec. Unwaith ichi gofrestru, gallwch ddefnyddio adnodd marchnata'r wefan i wahodd cefnogwyr i'ch dewis chi fel yr achos i'w elwa wrth siopa. Mae adnodd cofnodi'r wefan hefyd yn caniatáu ichi fwrw golwg ar y cyfraniadau'n casglu.



Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) – Porthol Ceisiadau Amlburpas (MAP) newydd

Os ydych chi'n ceisio am gyllid o gronfa y mae WCVA yn ei reoli, gan gynnwys y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi neu gronfa sy'n rhan o ymbarél Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, rŵan ydy'r amser ichi ddysgu mwy am ei borth ceisiadau newydd.

Roedd Bae Colwyn ymysg y lleoliadau y bu i WCVA ymweld â nhw ym mis Tachwedd er mwyn cyflwyno'r porthol ac egluro mwy am y cronfeydd maen nhw'n eu cynnal. Mae eu cyflwyniad ar gael ar-lein erbyn hyn er mwyn helpu'r rheiny nad oedd yn medru mynychu i ddysgu mwy am y system rheoli cynigion a cheisiadau newydd: <https://bit.ly/2EfmGXy> I wybod mwy, cysylltwch gydag AJ Perkins yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: aperkins@wcva.org.uk

Cronfa grantiau bach newydd Gwynt y Môr

Yn 2020, bydd FLVC yn lansio ffrwd cyllid newydd ar gyfer mudiadau sydd yn nalgylch Gwynt y Môr. Gall fudiadau geisio am hyd at £2000 tuag at ystod eang o brosiectau. I wybod mwy, cysylltwch gyda **Heather Hicks@flvc.org.uk**, neu ffoniwch **01352 744000**.

Cyfleoedd i geisio am gyllid yn dod i ben yn fuan

Cynllun Gateway Ymddiriedolaeth
Genedlaethol Eglwysi
9fed o Ionawr 2020

Cist Cymunedol Sir y Fflint FCC
10fed o Ionawr 2020

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
13eg o Ionawr 2020

Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward
31ain o Ionawr 2020

Sesiynau sgiliau gwaith gwirfoddol yn gwella profiad y Brifysgol i fyfyrwyr

Bu i ein canolfan wirfoddoli gynnal hyfforddiant Sgiliau Gwaith Gwirfoddol achrededig i fyfyrwyr yn astudio ym Mhrifysgol Glyndŵr. Mae'r brifysgol yn cydnabod bod gwirfoddoli yn cynnig profiad byd-go iawn gwerthfawr i'w myfyrwyr. Felly, bu i'r Brifysgol ein gwahodd ni i gydweithio gyda nhw i gynnig cyfle i'w myfyrwyr israddedig i ystyried a gwerthfawrogi'r sgiliau, nodweddion ac ymddygiadau ffafriol er mwyn manteisio i'r eithaf ar leoliad gwirfoddoli. Bu inni hefyd rannu gwybodaeth ar le i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli a sut i fynd ati i fanteisio ar gyfle gwirfoddoli.

Bu'r hyfforddiant yn boblogaidd ymysg amrywiaeth o unigolion yn y Gyfadran Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd. Dywedodd y Swyddog Datblygu Gwirfoddoli, Debbie Long "Bu i'r myfyrwyr gymryd rhan ymarferol yn y sesiynau hyfforddiant ac felly mae'n galonogol eu gweld nhw'n gwerthfawrogi sut gall gwirfoddoli fod o fudd i'w datblygiad personol, ategu at eu hastudiaethau academiaidd a chynyddu eu gobeithion o ran y farchnad swyddi. Rydym yn edrych ymlaen at hyfforddi mwy o fyfyrwyr o'r holl gyfadranau."



Debbie Long o'r Ganolfan Wirfoddoli gyda myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr wnaeth elwa o hyfforddiant Sgiliau Gwaith Gwirfoddol achrededig.

Dywedodd Cathy Hewins, Uwch Ddarlithydd Iechyd a Lles "Mae gwirfoddoli yn rhoi hwb i hyder ein myfyrwyr i fynd ati i ddatblygu prosiectau ac ymwneud gyda chymunedau neu grwpiau nad oedden nhw wedi ystyried cydweithio gyda nhw'n flaenorol. Mae myfyrwyr hefyd yn dweud bod gwirfoddoli yn fuddiol i'w hastudiaethau academiaidd gan ei fod yn eu helpu gyda rheoli amser ac yn eu

caniatáu i roi'r damcaniaethau maen nhw'n eu dysgu ar waith mewn sefyllfa bywyd go iawn."

Canolfan Wirfoddoli yn parhau i baratoi a pharu gwirfoddolwyr

Ers mis Mawrth, bu i ein cydweithwyr yn y Ganolfan Wirfoddoli gynorthwyo dros 120 o unigolion ar eu taith tuag at wirfoddoli. Mae'r ganolfan yn paratoi pobl ar gyfer swydd gwirfoddoli drwy gynnig cynlluniau gwirfoddoli gyda chefnogaeth ac yn rhoi'r rheiny sy'n barod i wirfoddoli yn Sir y Fflint ar ben ffordd gyda chyfleoedd sy'n cyd-fynd â'u diddordebau, yr hynny maen nhw'n angerddol yn eu cylch a nodau. Maen nhw'n helpu mudiadau i recriwtio gwirfoddolwyr hefyd ac yn cefnogi prosiectau i gynnig profiad o safon i'w gwirfoddolwyr.

Os hoffech chi gwblhau cynllun gwirfoddoli gyda chefnogaeth, rydym yn gwahodd y grŵp nesaf i ymuno gyda ni o Chwefror 2020. I wybod mwy, cysylltwch gyda Debbie Long – Swyddog Datblygu Gwirfoddoli:

Debbie.long@flvc.org.uk
01352 744017

Prosiect Gwirfoddoli Ifanc yn dod a llawenydd y Nadolig i breswylwyr cartref gofal

Ganolfan Wirfoddoli yn parhau i wahodd pobl leol rhwng 16 a 25 oed i ymuno â'u Prosiect Gwirfoddoli gyda Chefnogaeth i Bobl Ifanc sy'n bedair wythnos o hyd. Mae'r prosiect yn cynnig cyfle i bobl ifanc i ddefnyddio'u sgiliau presennol a dysgu sgiliau newydd drwy fanteisio ar sesiynau blasu gwirfoddoli gydag ystod o fentrau ledled y sir. Mae cyfle i'r unigolion hefyd weithio tuag at ennill cymhwyster sgiliau gwirfoddol lefel un y Rhwydwaith Coleg Agored (OCN).

Ym mis Hydref, bu i wirfoddolwyr gyflawni gwaith cynnal a chadw ar ardd ym Mharc Wepre, Cei Connah ac yng Ngwarchodfa Natur Lane End Tir Gwyllt ym Mwcle. Yn ystod eu sesiwn olaf, bu i'r grŵp baratoi blychau anrheg ar gyfer Apêl Blychau Nadolig Age Cymru.

Fe ymunodd Johnno sy'n 24 oed â'r prosiect er mwyn llenwi amser yn ystod cyfnod heb waith. Pan ofynnwyd iddo beth roedd wedi'i fwynhau fwyaf am y profiad, fe ddywedodd Johnno "Bu'n wych bod allan ac o gwmpas, dysgu sgiliau newydd a chyfarfod a chydweithio gyda phobl newydd." Bu i'r prosiect arwain at leoliad gwirfoddoli lle mae modd i Johnno ddefnyddio'i sgiliau cyfrifiadurol.

Fe astudiodd Alex garddwriaeth yn y coleg tan fis Mehefin, ac ymunodd gyda'r prosiect yn ystod ei daith i baratoi tuag at ddod o hyd i waith. Fe ddywedodd Alex sy'n 22 oed "Roeddwn i'n dechrau teimlo'n flin yn peidio â gwneud dim byd ac roeddwn yn falch o'r cyfle i ddefnyddio fy sgiliau garddio. Mae'r prosiect yn hamddenol ac yn braf a wnes i fwynhau cwrdd â phobl newydd. Bu imi deimlo'n fwy cadarnhaol ers ymuno â'r prosiect ac yn ddiweddar bu imi ddechrau gwirfoddoli mewn caffi. Rydw i'n gobeithio y bydd cyfnod o wirfoddoli yn rhoi hwb i fy hyder i ddod o hyd i waith gyda thâl."

Os hoffech chi gymryd rhan yn y prosiect, neu os allwch chi gynnig sesiwn blasu gwirfoddoli i grŵp o bobl ifanc, cysylltwch gyda ni yn y ganolfan wirfoddoli.



Bu i bobl ifanc yr ardal baratoi blychau anrheg ar gyfer Apêl Nadolig Age Cymru fel rhan o Gynllun Gwirfoddoli gyda Chefnoagaeth FLVC.

Gafael ynddi gyda llwyfan newydd Gwirfoddoli Cymru

Bu i Gwirfoddoli Cymru, y lle i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru, ddiweddarau eu gwefan i lwyfan newydd sbon. Os ydych chi'n fudiad sy'n dymuno hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli neu'n unigolyn yn chwilio am leoliad gwirfoddoli, ewch i <https://flintshire.volunteering-wales.net/>

Hyd yn hyn, bu i dros 300 o bobl leol fynegi diddordeb mewn gwirfoddoli drwy gofrestru ar y wefan ac maen nhw wrthi'n chwilio am gyfleoedd sy'n gweddu i'w diddordebau a dyheadau. Unwaith y bydd yr unigolion yn dod o hyd i gyfle, fe allan nhw ddefnyddio'r wefan i gadw golwg ar y nifer o weithiau maen nhw wedi buddsoddi mewn mudiad, cynnig adborth i ddarparwyr lleoliadau ynghylch eu profiadau a derbyn sylwadau gan eu darparwyr lleoliadau ynghylch eu gwerth i'r mudiad.

Rydym yn cynnal sesiynau cyngor ac arweiniad un-i-un yn y **Gorlan ar ddydd Llun, Ionawr yr 20fed ar ddydd Mawrth Ionawr yr 21ain 2020** ar gyfer mudiadau sy'n dymuno dysgu sut i ddefnyddio'r wefan i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ac i reoli eu gwirfoddolwyr. I gadw lle ar sesiwn awr un-i-un i'ch mudiadau, cysylltwch gyda ni.



Ydy eich mudiad yn dymuno recriwtio gwirfoddolwyr?

Ydych chi'n chwilio am gyfle gwirfoddoli yn Sir y Fflint?

Ymunwch gyda ni yn Pafiliwn Jade Jones rhwng **11yb ac 1yp ar ddydd Mercher, Ionawr y 15fed 2020** ar gyfer ein Diwrnod Gwybodaeth am Wirfoddoli a Recriwtio.

Mae'n gyfle i fudiadau ddangos y cyfleoedd gallwch eu cynnig i wirfoddolwyr, canfod sut gallwch chi ddefnyddio gwefan Gwirfoddoli Cymru yn y ffordd mwyaf effeithiol posib er mwyn denu gwirfoddolwyr newydd a bydd yn fodd ichi ddysgu mwy am sut gall FLVC eich cefnogi chi.

Os ydych chi'n unigolyn sy'n chwilio am gyfle gwirfoddoli, dewch draw i gyfarfod y mudiadau sy'n gobeithio eu bod yn addas ichi. Bydd croeso cynnes ichi.

Daeth y Côt Ymarfer o ran Codi Arian diwygiedig mewn grym ar Hydref y 1af 2019

Bu i'r Rheoleiddiwr Codi Arian gyhoeddi'r côd newydd tri mis cyn ei roi mewn grym ar Hydref y 1af. Mae'n dwyn i ystyriaeth y 114 ymateb a dderbyniwyd i ymgynghoriad oedd yn canolbwyntio ar ofalu bod y côd yn haws ei ddefnyddio. Mae'r côd newydd, sydd i fod yn llawer mwy syml, ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Codi Arian, www.fundraisingregulator.org.uk.

Sesiwn Ymwybyddiaeth Troseddau Seiberddoseddu yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Dwyll yn erbyn Elusennau 2019

Yn ystod yr wythnos codi ymwybyddiaeth ym mis Hydref, bu sesiwn ar gyfer grwpiau a mudiadau trydydd sector lleol am y troseddau gall ymddangos iddyn nhw ar-lein a'r mesurau ataliol i ofalu eu bod yn ddiogel. Bu i FLVC gynnal y sesiwn ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru ac OWL Cymru.

Cafodd yr unigolion eu rhoi ar ben ffordd ynghylch cyfoeth o wybodaeth ar sut i ddiogelu, canfod ac ymateb i dwyll yn erbyn mudiadau trydydd sector, gan gynnwys taflenni help, astudiaethau achos, gweminarau a thiwtorialau. I ddod o hyd i'r adnoddau hyn, teipiwch "Charity Fraud Awareness Hub" yn eich peiriant chwilio.

Lleisio'ch barn ar God Llywodraethu Elusennau

Lansiwyd ymgynghoriad ar sut i wella rhifyn cyfredol y cod, wedi'i gyhoeddi yn 2017, ar Dachwedd y 4ydd 2019. Mewn ymdrech i geisio gofalu bod cydbwysedd rhwng bod yn gyfredol a lleihau'r amhariad ar y rheiny oedd yn defnyddio'r cod, caiff ei gynnig mai prif ffocws y diweddariad yn 2020 fydd saith egwyddor y cod gyda'r ddogfen ymgynghori yn amlygu achos am newid ar frys mewn meysydd penodol. Mae'r cynnod ymgynghori yn dod i ben ar Chwefror yr 28ain 2020. Gallwch fwrw golwg ar y cod yma www.charitygovernancecode.org. Hefyd bu i'r cod ymuno gyda Twitter ym mis Hydref 2019 [@charitygovcode](https://twitter.com/charitygovcode)

Awgrymiadau priodol i ein gwlad ar gyfer llywodraethu da

Yn ystod Wythnos yr Ymddiriedolwyr ym mis Tachwedd, mae'n bleser gennym ni groesawu pobl leol sy'n derbyn ein gwahoddiad i ddysgu a rhannu awgrymiadau effeithiol ar gyfer cynnal mudiad, elusen, clwb neu gymdeithas wirfoddol a chymunedol.

Bu i ein gwesteion elwa o gyngor gan Reolwr Llywodraethu a Diogelu o Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau i'w rhannu, neu os oes gennych chi syniad am weithdy a fydd o fudd i'r rheiny sy'n creu a chynnal a chadw grwpiau, clybiau a chymdeithasau yn ein hardal, buasem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Comisiwn yr Elusennau yn diweddaru canllaw diogelu

Mae'r canllaw yn helpu ymddiriedolwyr elusennau i ofalu caiff diogelwch unrhyw un mae'r elusen yn ymwneud gyda nhw ei flaenoriaethu. Mae'r diweddariad yn adlewyrchu adborth yn dilyn ymgynghoriad ar ei ddefnyddioldeb, ac erbyn hyn mae'n ymdrin â'r canlynol:

- Camau ymarferol i ofalu bod polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol
- Mwy o eglurder ar ddisgwyliadau yn ymwneud â'r angen gynnal gwiriadau cofnodion troseddol
- Cyngor ar bennu oes angen cynnal gwiriadau
- Adnoddau newydd ac ymarferol gan arbenigwyr

Gallwch weld "Diogelu a gwarchod pobl i elusennau ac ymddiriedolwyr" ar ein gwefan:

FLVC.org.uk > [Llywodraethu Da](#) > [Adnoddau Hanfodol](#) > [5.Ymddiriedolwyr a llywodraethu](#) > [5.1 I Diogelu](#)

Paratoi ar gyfer Brexit

Cafodd Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit ei ffurfio er mwyn paratoi'r trydydd sector ar gyfer Brexit. Bu i bartneriaid y fforwm, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Phrifysgol Caerdydd, wedi'i ariannu gan y Sefydliad Addysg Cyfreithiol gynnig polisïau ac arbenigedd cyfreithiol a bu iddyn nhw gydweithio gyda grwpiau yng Nghymru i ddatblygu eu canfyddiadau. Cafodd y rhain eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel cyfres o ofynion. Fel ymateb i hyn, dywedodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Llywodraeth Leol, Mark Drakeford "..... rydw i'n cymeradwyo papur safbwynt y Fforwm gan y bydd yn helpu'r trydydd sector i ystyried y goblygiadau mewn nifer o feysydd allweddol, fel cydraddoldeb a hawliau dynol, mewnfydo, dinasyddiaeth yr UE a'r amgylchedd a lles anifeiliaid." Gallwch weld mwy am y Fforwm, gan gynnwys ei ganfyddiadau ar <https://www.brexitforumwales.org>